# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Iau, 23 Ionawr 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams a/ac Huw Williams

**Arsyllwyr:** Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Ann Davies, Bobby Feeley, Martyn Holland, Hugh Carson Irving, Dewi Owens, Merfyn Parry ac Eryl Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Rheolwr Rhaglen (JC), Pennaeth Addysg (KIE), Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes (TB), Arweinydd y Tîm Arfordirol (MD), Rheolwr Ymgysylltiad Cymundol (DD), Swyddog Prosiect Graddedig (HJ), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE), Cydlynydd Archwilio (RE), a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

**Aelodau Cyfetholedig yn Bresennol:** Debra Houghton, Dr Dawn Marjoram a Gareth Williams.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr James Davies, Peter Evans, a Cheryl Williams

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd gan yr Aelodau Cyfetholedig Nicola Lewis a Gill Greenland.

## 2 DATGANIADAU BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a'r Aelod Cyfetholedig, Gareth Williams, fuddiant personol yn Eitem 3 ar yr Agenda – Galw i mewn y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysodd y Cadeirydd fod penderfyniad a wnaed gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2014 i gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd wedi cael ei alw i mewn ar gyfer adolygiad. O ganlyniad, er mwyn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Galw-i-Mewn y Cyngor a oedd yn nodi bod yn

rhaid i bwyllgor archwilio ystyried penderfyniad a alwyd i mewn o fewn pum niwrnod gwaith, roedd wedi cytuno i ystyried y mater fel eitem frys o fusnes ar agenda'r cyfarfod cyfredol. Roedd holl aelodau'r Pwyllgor gan gynnwys aelodau cyfetholedig wedi cael copïau o'r adroddiad a'r atodiadau a gafodd eu hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr.

Galw i mewn y Cynnig Arfaethedig i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd.

Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2014 fe gymeradwyodd Cabinet Sir Ddinbych yr argymhelliad canlynol:

*"… cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr o 31 Awst 2014, gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn amodol ar ddewis rhieni."*

Cafodd y penderfyniad uchod ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 17 Ionawr 2014 ac yn unol â Gweithdrefn Galw-i-Mewn y Cyngor, ni chafodd y penderfyniad ei weithredu ar unwaith, gan alluogi Cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet i alw'r penderfyniad i mewn ar gyfer archwiliad, os oeddent yn teimlo'i fod yn deilwng o gael ei archwilio.

Daeth ffurflen "Hysbysiad Galw-i-Mewn", wedi'i lofnodi gan nifer gofynnol y Cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet, i law ar 20 Ionawr.

Y seiliau dros alw'r penderfyniad i mewn oedd:

(i) Methiant i ymgynghori; a
(ii) Rhagfarnu'r penderfyniad i gau Ysgol Llanbedr D C

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau benderfynu, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd iddynt, a oedd y Pwyllgor yn credu y dylai'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol, ac os felly, ar ba seiliau.

Gan fod penderfyniad y Cabinet ar 14 Ionawr yn ymwneud â darpariaeth addysg y Cyngor, roedd gan Aelodau cyfetholedig statudol yr Awdurdod ar gyfer addysg ar y Pwyllgor Archwilio hawl i gyfranogi'n llawn yn y drafodaeth am y penderfyniad a Alwyd i Mewn fel Aelodau o'r Pwyllgor.

Fe wnaeth y Cynghorydd Huw Williams gyflwyno'r cais galw-i-mewn. Fe wnaeth hefyd gyflwyno cynrychiolwyr y Corff Llywodraethol a'r cynrychiolwyr Esgobaethol a fyddai'n cyflwyno'u hachos, gan geisio adolygiad o'r penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y bwriad i gau'r ysgol. Rhoddodd y Cynghorydd Williams grynodeb byr o hanes Ysgol Llanbedr D C.

Roedd y Parchedig Chew yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno tystiolaeth fel Rheithor Llanbedr D C ac yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr D C.

Roedd Anthony Smith yn bresennol yn y cyfarfod fel Is-gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr D C.

Roedd Rosalind Williams yn bresennol yn y cyfarfod fel cynrychiolydd yr Esgobaeth.

Cychwynnodd y Parchedig Chew y ddadl o blaid cadw Ysgol Llanbedr D C ar agor fel a ganlyn:

(i) Roedd ef dan y ddealltwriaeth mai'r prif nod oedd gostwng nifer y lleoedd gwag. Roedd yr ysgol ar y trywydd iawn i fod yn llawn dros y ddwy flynedd nesaf. Byddai perygl difrifol i ddewis rhieni pe bai'r ysgol yn cael ei chau.
(ii) Nid oedd rhanddeiliaid allweddol, megis meithrinfa Munchkins, wedi cael eu hystyried
(iii) Roedd y penderfyniad i gau Ysgol Llanbedr D C yn un a wnaed rhag blaen, a oedd yn groes i God Ymarfer Llywodraeth Cymru.

Cododd Anthony Smith y pwyntiau canlynol:

(i) Hepgoriadau yn yr adroddiad a'r ddogfen a oedd wedi cael ei chyflwyno i Aelodau'r Cabinet.
(ii) Methiant i ymgynghori'n ddigonol. Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol a gwblhawyd wedi methu ag ystyried rhagolygon genedigaethau, cynnydd rhagamcanol mewn tai newydd fel a gynigir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer Llanbedr D C ac ati.
(iii) Methiant i ymgynghori â Meithrinfa Ddydd Munchkins.
(iv) Roedd diffyg pellach yn yr ymgynghoriad gan fod y Llywodraethwyr wedi cael eu hysbysu nad oedd angen ymgynghori â'r Esgobaeth. Rhagderfynu oedd hyn.
(v) Methiant i gydymffurfio â Pholisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg ffydd
(vi) Tystiolaeth o ragderfyniad ar ran yr Awdurdod Lleol i gau'r ysgol
(vii) Methiant i gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i fesur effaith bosib y cynnig ar y gymuned leol
(viii) Ni wnaed unrhyw gyfeiriad ar unrhyw adeg yn yr ymgynghoriad ffurfiol at y ffaith y byddai cau'r ysgol yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i ddenu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion eraill

Cododd Rosalind Williams y pwyntiau canlynol:

(i) Ym mis Mawrth 2013 roedd yr Esgobaeth wedi cynnig gweithio gyda'r Cyngor, ond ni chafwyd unrhyw ymateb. Cyfarfu swyddogion o'r Cyngor a'r Esgobaeth ym mis Mehefin, pan gynigiodd yr Esgobaeth weithio gyda'r Cyngor unwaith eto. Cafodd yr Esgobaeth ei hysbysu bod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal. Ym mis Medi 2013 roedd Rosalind Williams wedi anfon e-bost at y Tîm Moderneiddio Addysg i gynnig gweithio ar fodelau eraill ond nid oedd wedi derbyn ymateb i'r e-bost.
(ii) Nid oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau nes i'r ymgynghoriad ffurfiol ddod i ben.
(iii) Daeth Cod newydd i rym ym mis Medi 2013 ac nid oedd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n unol â'r Cod.

(iv) Nid oedd unrhyw opsiynau eraill i uno neu ffederaleiddio wedi cael eu hystyried.

Fe ymatebodd y swyddogion a oedd yn bresennol i'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

(i) Fe bwysleision nhw nad y swyddogion oedd y penderfynwyr. Roedd adroddiadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth lawn yn cael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau er mwyn iddynt hwy wneud y penderfyniadau.

(ii) Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg yn 2009, ac o dan y Polisi hwnnw roedd y Cyngor wedi ymrwymo i adolygu'r holl ysgolion cynradd â llai nag 80 o ddisgyblion. Fodd bynnag nid oedd wedi cymeradwyo polisi o gau ar gyfer yr holl ysgolion â llai nag 80 o ddisgyblion, ond yn hytrach polisi i gynnal adolygiad o'r ysgolion hynny gan ystyried darpariaeth addysgol addas arall yn yr ardal gyfagos.

(iii) O ran nifer y lleoedd a nifer y disgyblion yn yr ysgol, roedd 21 o ddisgyblion yn mynychu ar hyn o bryd gyda 7 disgybl arall yn debygol o fynychu yn y flwyddyn ysgol nesaf.

(iv) Meithrinfa breifat wedi'i lleoli yn yr ysgol oedd Munchkins. Cafodd copi o'r ymgynghoriad ffurfiol ei anfon at Munchkins fel sy'n ofynnol gan y Cod. Ni chafodd ei anfon at holl rieni'r plant sy'n mynychu Munchkins gan nad oedd yr wybodaeth honno gan yr Awdurdod Lleol am mai meithrinfa breifat ydoedd.

(v) Ynghylch y Cod. Roedd y Cod newydd a ddaeth i rym ym mis Hydref 2013 yn cynnwys dyfarniadau ar weithdrefnau y mae'n rhaid neu y dylid eu dilyn. Roedd yr Awdurdod Lleol wedi dilyn yr holl weithdrefnau yr oedd yn ofynnol i'w dilyn ac roedd wedi ceisio cydymffurfio lle'r oedd y Cod yn nodi y dylai. Mae'n rhaid ymgynghori â phobl a phlant o oedran ysgol statudol ac fe wnaed hyn.

(vi) Roedd y Cod yn nodi y gallai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n anffurfiol, ond bod yn rhaid iddo gynnal ymgynghoriad statudol. Roedd y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad anffurfiol hefyd (nad oedd yn "rhaid" iddo'i wneud dan y Cod). Roedd wedi cyflwyno dogfen ymgynghori, a oedd yn arfer da. Roedd hefyd wedi cynnal yr ymgynghoriad statudol yn unol â'r Cod. Fe drefnwyd fod pob ffolder gwybodaeth ar gael i Aelodau'r Cabinet, yn dilyn y cam anffurfiol a'r cam ffurfiol. Roedd pob un ymateb wedi cael ei gydosod a lle rhoddwyd caniatâd roeddent wedi cael eu cyhoeddi ar y wefan. Os oedd unrhyw un wedi gwrthod yna ni fyddai'r manylion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ond roedd copïau'n cael eu hanfon at Aelodau'r Cabinet. Fe drefnwyd fod gwybodaeth ar gael fel mater o arfer da. Roedd yr Awdurdod Lleol wedi ymlynu wrth y Cod.

(vii) Roedd gan Lywodraeth Cymru Bolisi Ffydd mewn Addysg. Roedd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol roi sylw i'r Polisi hwn ac ystyried addysg ffydd ond nid oedd yn rhwymedigaeth statudol cynnal yr holl ddarpariaeth ffydd. Roedd yr Awdurdod Lleol wedi dangos ei gefnogaeth i addysg ffydd oherwydd o fewn y cynnig i gau Ysgol Llanbedr roedd opsiwn, yn amodol ar ddewis rhieni, i'r disgyblion drosglwyddo i Ysgol Borthyn, ysgol addysg ffydd cyfrwng Saesneg o fewn 2.3 milltir ac a oedd felly'n rhoi darpariaeth addysgol addas arall.

(viii) Yn ne'r sir roedd lleoedd gwag. Y strategaeth a oedd yn ofynnol ar y cyfan oedd sicrhau'r nifer cywir o leoedd o'r math cywir yn y lleoliad cywir. Felly

roedd angen gostwng nifer y lleoedd gwag ledled y sir, yn enwedig yn y De gyda golwg ar gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yng ngogledd y sir i ateb y galw ymhlith rhieni.

(ix) Byddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried nifer o ffactorau cyn y byddai'n cynnig cau ysgol. Byddai'n ystyried niferoedd cyfredol a niferoedd rhagamcanol y disgyblion, safonau a darpariaeth addysgol a chyflwr adeiladau ysgolion. Pe tybid bod ysgol unigol yn anghynaliadwy, byddai'r Awdurdod Lleol yn ymchwilio i'r posibilrwydd o uno, ffederaleiddio ac yna cau'r ysgol. Ni fyddid yn rhagdybio'n awtomatig y byddai ysgol yn cau gan fod proses i'w dilyn.

(x) Roedd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei gynnal a'i gyhoeddi fel rhan o'r broses ymgynghori Ffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd yr Asesiad cyfredol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gallu cael ei lunio nes bod y cyfnod ymgynghori statudol wedi dod i ben.

(xi) Nid oedd safonau addysgol yn Ysgol Llanbedr D C wedi bod yn ffactor a gyfrannodd at y cynnig i gau'r ysgol. Roedd safonau addysgol yn Ysgol Llanbedr ac Ysgol Borthyn yn gyfartal, roedd y ddwy ysgol yn y chwartel uchaf ar gyfer safonau cyflawniad addysgol. Felly, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, roedd y Sir yn cynnig darpariaeth addysgol arall â deilliannau a oedd o leiaf yn gyfartal.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wrth y Pwyllgor, pe bai'r penderfyniad yn cael ei atgyfeirio'n ôl at y Cabinet, y byddai'n rhaid cyflwyno'r rhesymau dros y penderfyniad i wneud hynny hefyd. Byddai'n ofynnol i'r Cabinet roi sylw i argymhellion y Pwyllgor ac yna wneud penderfyniad i naill ai cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol neu wneud penderfyniad newydd.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor fe gadarnhaodd swyddogion:

- Bod digon o le yn Ysgol Borthyn ar gyfer disgyblion o Ysgol Llanbedr D C
- Mai dim ond 7 o blant o Lanbedr D C sy'n mynychu ysgol y pentref ar hyn o bryd
- Mai dim ond lleiafrif o rieni Ysgol Llanbedr D C a oedd wedi ymateb i'r holiadur gan ddweud y byddent yn dewis Ysgol Borthyn fel ysgol arall i'w plentyn. Cydnabuwyd fod rhieni'n tueddu i fod yn gyndyn o ddewis darpariaeth arall nes bod penderfyniad gwirioneddol i gau wedi cael ei wneud
- Bod cyfraddau genedigaethau a ragamcanir yn y dyfodol ac effaith datblygiadau tai newydd posib yn Llanbedr D C wedi cael eu cynnwys fel ffactorau yng nghyfrifiadau'r Cyngor wrth adolygu cynaliadwyedd yr ysgol
- Bod yn rhaid i broses i ffederaleiddio'r ysgol ag ysgol arall gael ei gwneud mewn ffordd a fyddai wrth fodd y ddwy ysgol gyda phartner parod. Roedd yr opsiwn wedi cael ei ystyried ond ni fyddai'n cyflawni unrhyw un o'r amcanion. Ni fyddai'n rhyddhau'r adeilad, nac yn gwireddu arbedion refeniw digonol nac yn mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran lleoedd gwag. Ar hyn o bryd 24% oedd cyfradd y lleoedd gwag yn y sector cynradd yn ardal Rhuthun, a byddai'n rhaid gostwng y gyfradd hon i alluogi'r Cyngor i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion
- Bod yr Esgobaeth yn un o'r ymgynghoreion yn y mater hwn. Cafodd yr adroddiad i'r Cabinet ei ohirio er mwyn ymgynghori'n briodol â'r Esgobaeth a rhoi iddynt y 28 diwrnod gofynnol i ymateb. Cafwyd ymateb. Fodd bynnag,

nid oedd y Cyngor a'r Esgobaeth yn gallu cytuno ar y cynnig ac fe gytunwyd i anghytuno. Fe adroddwyd ar y ffaith hon wrth y Cabinet

- Y dylai addysg i blant ag anghenion addysgol arbennig barhau yn unol â datganiad diweddaraf y plentyn ac y byddai gofynion cludiant yn cael eu hasesu ar sail anghenion penodol pob plentyn unigol
- Bod niferoedd rhagamcanol y disgyblion ar gyfer Ysgol Borthyn yn dangos bod hon yn ysgol gynaliadwy hyd y gellir rhagweld
- Eu bod yn hyderus bod yr holl weithdrefnau gofynnol wedi cael eu dilyn yn fanwl
- Mai nod y Rhaglen Moderneiddio Addysg oedd sicrhau adeiladau gwell ar gyfer ysgolion ac, o ganlyniad, deilliannau gwell i holl ddisgyblion y Sir

Cafodd y ddau barti'r cyfle i grynhoi eu dadl cyn i'r Cadeirydd bwysleisio wrth Aelodau'r Pwyllgor mai'r hyn yr oedd gofyn iddynt benderfynu arno oedd, a oedd y broses ymgynghori ddyladwy a chywir wedi cael ei dilyn i alluogi'r Cabinet i wneud ei benderfyniad.

Cynigiodd y Cynghorydd H O Williams fod y Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad ar 14 Ionawr 2014 mewn perthynas â symud ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Llanbedr D C ar sail diffyg ymgynghori ynghylch materion cyllido ac ariannol, ac ar sail ymgynghori annigonol â'r awdurdodau Esgobaethol. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd J Welch. Pan gynhaliwyd pleidlais, cafodd nifer cyfartal o bleidleisiau eu bwrw o blaid ac yn erbyn y cynnig. Yna fe ddefnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn erbyn y cynnig. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

***PENDERFYNWYD: -** yn dilyn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd iddo, nad oedd y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 14 Ionawr 2014 i "gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig i gau Ysgol Llanbedr o 31 Awst 2014, gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ddewis rhieni" yn deilwng o gael ei atgyfeirio'n ôl at y Cabinet ar gyfer adolygiad.*

## 4 COFNODION

Cafodd Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2013 eu cyflwyno.

***PENDERFYNWYD** y dylai Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2013 gael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**Ar y pwynt hwn cafwyd egwyl o 10 munud (11.45 a.m.)**

**Fe ailgynullodd y cyfarfod am 11.55 a.m. a chyda chydsyniad y Pwyllgor fe amrywiodd y Cadeirydd drefn busnes y cyfarfod**

## 5 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL (ADRODDIAD CHWARTEROL)

Fe wnaeth y Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes gyflwyno'r adroddiad ar Gynlluniau Tref ac Ardal (a oedd wedi cael ei gylchredeg yn flaenorol) i fonitro perfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Gynlluniau Tref a'u manteision i'r trefi eu hunain a chymunedau pellennig.

Byddai'r holl Gynlluniau Tref ac Ardal (ac eithrio Bodelwyddan) yn cael eu mabwysiadu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd y Prif Weithredwr wedi gofyn am adolygiad llawn o'r cynlluniau tref i adolygu'r effaith o'i chymharu â'r adnodd o ran costau. Byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

Roedd yr holl ddyraniadau wedi cael eu cytuno gan y Cabinet. Ar y pryd roedd cyllid ychwanegol o £356,000 wedi cael ei ddyrannu ar gyfer cynlluniau tref ac ardal yn 2014/15, y gellid cyflwyno cynnig amdano.

Roedd y dull wedi bod yn gyson ar draws pob ardal wledig. Roedd cyllid a oedd wedi cael ei ddyrannu o'r gyllideb tref ac ardal yn flaenoriaeth ar gyfer blwyddyn 1. Roedd y cynlluniau'n rhai dros nifer o flynyddoedd, nid dim ond yn gynllun un flwyddyn.

Ffynhonnell cyllid arall oedd cyllid grant allanol. Roedd Cynghorau Tref a Chymuned yn rhoi llawer o ymdrech tuag at archwilio ffrydiau cyllido eraill ar gyfer prosiectau. Roedd posibilrwydd o gyllid cyfatebol hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley a ellid cofnodi y dylid parhau â'r penwythnos "Drysau Agored" yn Rhuthun gan ei fod yn denu nifer fawr o ymwelwyr i'r dref.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau'n nodi'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud wrth gyflawni Cynlluniau Tref ac Ardal.*

## 6 RHAGLEN Y RHYL YN SYMUD YMLAEN (ADRODDIAD CHWARTEROL)

Fe wnaeth Arweinydd y Tîm Arfordirol gyflwyno'r Adroddiad Chwarterol ar Raglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen (a oedd wedi cael ei gylchredeg yn flaenorol) i alluogi'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau i werthuso a monitro cynnydd a chyflawniadau'r Rhaglen wrth ddwyn y deilliannau disgwyliedig, ac i adnabod unrhyw llithriant o ran cyflawni'r rhaglen.

Cadarnhawyd y byddai Swyddfa'r Harbwrfeistr, ar ôl ei chwblhau, hefyd yn cynnwys caffi a busnes arall o fewn yr adeilad.

Codwyd y mater ynglŷn â chyflwr adfeiliedig y bordiau o amgylch yr hen ffair bleser. Roedd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes (RhDEaB) wedi bod mewn cysylltiad â pherchnogion y tir, Scarborough Developments. Roeddent hwy wedi rhoi sicrwydd i'r RhDEaB y byddai cynrychiolydd ar ran y Cwmni'n ymweld â'r safle

ar ddydd Llun 27 Ionawr. Roedd y RhDEaB wedi cysylltu â’r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a gadarnhaodd y gellid cymryd camau gorfodi. Pe na bai cyflwr y bordiau wedi gwella erbyn diwedd yr wythnos ganlynol, byddai rhybudd yn cael ei gyflwyno i Scarborough Developments a graddfa amser yn cael ei rhoi. Pe na bai’r gwaith yn cael ei wneud erbyn y dyddiad penodol yna byddai Sir Ddinbych yn gwneud y gwaith a byddai pridiant yn cael ei roi ar y tir.

Cadarnhaodd swyddogion fod cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau yn yr Arena Ddigwyddiadau wedi dod i ben, ond bod gwaith yn mynd rhagddo dan y Cynllun Tref i archwilio ffrydiau cyllido eraill posib.

Cytunodd holl Aelodau’r Pwyllgor a oedd yn bresennol eu bod am i’w diolchiadau gael eu cofnodi a’u cyfleu i’r RhDEaB ac Arweinydd y Tîm Arfordirol am y gwaith gwych yr oeddent yn ei wneud.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Aelodau’r Pwyllgor Archwilio Cymunedau’n nodi’r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud.*

## 7 CYFAMOD CYMUNEDOL GYDA'R LLUOEDD ARFOG (TACH/ RHAG 2013)

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Gymunedau gyflwyno’r Adroddiad ar y Cyfamod Cymunedol gyda’r Lluoedd Arfog (a oedd wedi cael ei gylchredeg yn flaenorol) i Aelodau ystyried diweddariad blynyddol ar y modd y mae’r mesurau a gyflwynwyd dan y cyfamod wedi rhoi cymorth i gymuned y lluoedd arfog yn Sir Ddinbych ac i’r Pwyllgor ystyried a yw’n ofynnol gwneud unrhyw newidiadau i’r ddarpariaeth gyda golwg ar gryfhau’r cyfamod.

Datganiad gwirfoddol o gydgymorth rhwng cymuned sifil a chymuned leol y lluoedd arfog yw Cyfamod Cymunedol. Roedd wedi’i fwriadu i ategu Cyfamod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog a oedd yn amlinellu’r rhwymedigaeth foesol rhwng y Wlad, y Llywodraeth a’r Lluoedd Arfog, ar lefel leol.

Fe wnaeth y Cyngor Llawn fabwysiadu’r Cyfamod yn ffurfiol ar 11 Medi 2012 a gofyn i’r Pwyllgor Archwilio ei argyhoeddi ei hun ynghylch y mesurau yr oedd Sir Ddinbych yn dymuno’u mabwysiadu.

Cytunodd y Cyngor i enwebu “Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog” (Yr Aelod Arweiniol dros Gymunedau, Y Cynghorydd Huw Irving) a rhywun penodol i fod yn “Swyddog Arweiniol y Lluoedd Arfog” (Y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol).

Roedd gweithdy wedi cael ei gynnal gyda chynrychiolwyr o elusennau allweddol y lluoedd arfog a sefydliadau yn y sector cyhoeddus i wella dealltwriaeth am y materion sy’n wynebu personél a chyn-aelodau’r lluoedd arfog. Rôl y gweithgor oedd cydlynu camau gweithredu, adnabod bylchau yn y ddarpariaeth a chyfnewid gwybodaeth ac arfer da.

Un o’r camau gweithredu allweddol a adnabuwyd gan y Cyfamod oedd yr angen i sefydlu tudalen wybodaeth bwrpasol ar wefan Cyngor Sir Ddinbych gyda dolenni i

sefydliadau a allai roi cyngor a chymorth mewn perthynas â materion sy'n amrywio o bryderon ynghylch lles i gyngor ynghylch gyrfaoedd.

Roedd y Fyddin wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych gyda phrosiect ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan i ddatblygu profiad ymwelwyr/addysgol yn y Castell a fyddai'n cynnwys rhwydwaith ffosydd cynhwysfawr o'r Rhyfel Byd Cyntaf fel rhan o Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu cais am gyllid o Gronfa Gymunedol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn llwyddiannus ac fe gymeradwywyd grant o £225,000. Roedd disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn y gwanwyn a bydd y prosiect yn un am bum mlynedd. Ar ddiwedd y pum mlynedd, byddai Ymddiriedolaeth y Castell yn dod yn gyfrifol am y ffosydd. Byddai plant ysgol yn cael eu hannog i ymweld â'r ffosydd ac roedd rhaglen addysgol yn cael ei datblygu at y diben hwn ledled Gogledd Cymru a Sir Gaer.

Rôl y Cyngor fyddai monitro'r agwedd ariannol ar y prosiect a rhyddhau arian yn briodol.

Roedd tystiolaeth bod nifer o bersonél y lluoedd arfog sy'n gadael y lluoedd arfog yn dioddef problemau ariannol a seicolegol. Roedd Sir Ddinbych yn gweithio gyda grwpiau partner i gynorthwyo'r bobl hyn i gael eu hintegreiddio o fewn y gymuned.

Roedd y Cynghorydd Cefyn Williams yn teimlo, o safbwynt cydraddoldebau, na ddylai personél y lluoedd arfog gael blaenoriaeth dros bobl leol ar gyfer tai oni bai fod ganddynt gysylltiad lleol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe hysbysodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol fel a ganlyn:

- Roedd personél y Lleng Brydeinig Frenhinol wedi ymweld â'r Awdurdod i hyfforddi staff Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwasanaethau Cymdeithasol ar anghenion penodol personél y fyddin
- Roedd darn o waith ar fin cael ei wneud i fapio materion allweddol sy'n effeithio ar bersonél y lluoedd arfog a'r sefydliadau hynny a allai eu helpu. Rhoddodd y Swyddog Prosiect Graddedig amlinelliad byr o'i rôl hi yn y gwaith mapio hwn.
- Dywedodd y byddai'n gwneud ymholiadau i weld a oedd unrhyw gyllid ar gael i alluogi perthnasau dioddefwyr y Rhyfel Byd Cyntaf a pherthnasau personél a laddwyd mewn rhyfeloedd eraill i fynd i weld eu beddi yn Ewrop ac mewn rhannau eraill o'r byd
- Dywedodd fod y Gweithgor yn y broses o lunio cynllun gweithredu cydgysylltiedig a fyddai'n cynorthwyo sefydliadau i helpu ei gilydd a helpu personél y lluoedd arfog

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau'n cefnogi'r camau gweithredu a gymerir.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol) a oedd yn gofyn i’r Aelodau adolygu’r Rhaglen Waith Archwilio ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Cytunodd yr Aelodau â’r cais am adroddiad ar y Polisi a Rhaglen Torri Lleiniau Glas ar Ymylon Priffyrdd ar gyfer 2014/15 ym mis Ebrill

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod:*

*(a) y byddai Rhaglen Waith y Pwyllgor yn cael ei chymeradwyo; ac*
*(b) y byddai’r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn gwasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Rhoddodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Joe Welch a Cefyn Williams adborth byr o gyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol; Grwpiau Herio Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Hamdden, Cyfathrebu a Marchnata a Phriffyrdd ac Amgylcheddol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 p.m.**